**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion
Senedd Cymru

6 Hydref 2025

Annwyl Lywydd,

**Ymgynghoriad: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd**

Diolch i chi am ymgynghori â'r Pwyllgor Deisebau ynghylch y system bwyllgora a'r ystyriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, hoffwn dynnu sylw at ba mor bwysig ydyw i'r Pwyllgor gael pum Aelod – yn hytrach na'r pedwar a ddyrannwyd iddo ar ddechrau'r Chweched Senedd – o ran sicrhau bod y Pwyllgor a'i raglen waith yn gweithredu'n esmwyth. Cafodd aelodaeth y Pwyllgor ei gynyddu i bump ar 16 Tachwedd 2022.

Mae Pwyllgor o bedwar aelod, gyda chworwm o dri, yn golygu nad oes angen lot i danseilio parhad busnes y Pwyllgor. Mae cael aelodaeth o bump yn cynnig mwy o sefydlogrwydd. Felly, byddwn yn croesawu gweld hyn yn cael ei ystyried yn y penderfyniadau ar faint priodol Pwyllgorau yn y Seithfed Senedd.

Yn gywir,

**Carolyn Thomas AS**

**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.